

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Materion Ewropeaidd

Cynhyrchwyd gan Swyddfa'r UE Cynulliad
Cenedlaethol Cymru

Rhifyn 17_Ionawr / Chwefror 2009



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Cyflwyniad

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r ail rifyn ar bymtheg o Materion Ewropeaidd, sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf bob mis am waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â materion Ewropeaidd.

Ar 26 Ionawr, cefais fy ethol yn Gadeirydd newydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. Hoffwn dalu teyrnged i Sandy Mewies AC, a fu'n cadeirio'r Pwyllgor dros y pum mlynedd diwethaf. Fel rhywun a ymddangosodd yn aml gerbron y Pwyllgor gan wisgo het arall, cefais sawl cyfle i nofio yn nyfroedd y Pwyllgor. Bu'r profiad o roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ymhlith fy hoff brofiadau fel Prif Weinidog, a hoffwn ddymuno pob llwyddiant i Sandy yn ei rôl newydd yn cadeirio Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant y Cynulliad.

Mae Sandy wedi gadael etifeddiaeth gyfoethog ar ei hôl o ran y materion strategol a drafodir gan y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. Rwyf yn disgwyl i'r Pwyllgor barhau i ganolbwyntio ar y prif drafodaethau polisi sydd ar yr agenda ym Mrwsel yn 2010.

Ar 3 Chwefror, bu'r Cynulliad yn trafod adroddiad y Pwyllgor ar ddyfodol Polisi Cydlyniant yr UE, ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn ystod y Cyfarfod Llawn. Bydd y polisi cydlyniant yn rhan amlwg o waith y Pwyllgor yn 2010, yng nghyd-destun y drafodaeth ehangach sy'n datblygu ym Mrwsel ar ddyfodol Strategaeth Lisbon (a fydd yn debygol o gael ei hadnabod fel Strategaeth EU2020) a'r adolygiad o gyllideb yr UE.

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu ymweld â Brwsel ar 1 Mawrth er mwyn trafod y materion hyn gydag uwch swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd; uwch swyddogion o Gabinet yr Arlywydd Barroso; y Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol; y Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Gyflogaeth a Materion Cymdeithasol; y pedwar Aelod Cymreig o Senedd Ewrop (ASE); a'r Athro Danuta Hübner ASE, Cadeirydd newydd y Pwyllgor Datblygu Rhanbarthol yn Senedd Ewrop.

Ar hyn o bryd, Sbaen sy'n llywyddu dros yr UE—llywyddiaeth sy'n cylchdroi bob chwe mis—ac roeddem yn falch iawn o gyfarfod Ei Ardderchogrwydd Mr Carles Casajuana ar 9 Chwefror, a roddodd amlinelliad i ni o flaenoriaethau llywyddiaeth Sbaen.

2010 yw'r Flwyddyn Ewropeaidd dros Frwydro yn erbyn Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol. Mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth ynghylch arwyddocâd y flwyddyn Ewropeaidd i Gymru, a bu'r Pwyllgor yn trafod y prif faterion sy'n codi yn ystod yr ymchwiliad hwnnw ym mis Chwefror.

Dechreuodd mandad pum-mlynedd newydd Pwyllgor y Rhanbarthau ym mis Ionawr. Cynrychiolwyr y Cynulliad ar y Pwyllgor yw Christine Chapman AC a Rhodri Glyn Thomas AC. Bwriad Christine yw parhau i fod yn aelod o Gomisiwn Economaidd a Materion Cymdeithasol Pwyllgor y Rhanbarthau, tra bydd Rhodri Glyn, a ddaeth yn Gadeirydd yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig ym mis Ionawr, yn aelod o'r Comisiwn Adnoddau Naturiol newydd, sy'n ymdrin ag amaethyddiaeth a datblygu gwledig fel rhan o'i gylch gwaith. Y Cynghorwyr Bob Bright a Chris Holley sy'n cynrychioli Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau, ac edrychaf ymlaen at gael y wybodaeth y bydd ein pedwar cynrychiolydd yn ei rhoi'n rheolaidd i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol.

Gan droi at Bwyllgorau eraill y Cynulliad, bydd y Pwyllgor Menter a Dysgu yn lansio ymchwiliad newydd yn fuan a fydd yn edrych ar y ffordd y mae'r rhaglenni cronfeydd strwythurol Ewropeaidd ar gyfer 2007-2013 yn cael eu rhoi ar waith yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor hefyd yn bwriadu cynnal sesiynau tystiolaeth ychwanegol ar gyfer ei ymchwiliad i greu swyddi yn yr economi werdd.

Rhodri Morgan AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol



Busnes yn ymwneud â'r UE ym mhwylgorau'r Cynulliad

Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

- **Llywyddiaeth Sbaen o'r UE:** Ar 9 Chwefror, cyflwynodd Ei Ardderchogrwydd Mr Carles Casajuana, llysgennad Sbaen i'r Deyrnas Unedig, flaenoriaethau Sbaen yng nghyd-destun llywyddiaeth y wlad o'r UE.
- **Blwyddyn Ewropeaidd 2010 dros Frwydro yn erbyn Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** Fel rhan o'i ymchwiliad, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rhwydwaith Gwrthdlodi Ewrop ar Ionawr 26. Mae'r broses o gasglu dystiolaeth bellach wedi'i chwblhau a chafodd y papur ar y prif faterion ei drafod ar 9 Chwefror.
- **Pwyllgor y Rhanbarthau:** Clywodd y Pwyllgor y newyddion diweddaraf gan gynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau, Christine Chapman AC, Rhodri Glyn Thomas AC, a'r Cynghorydd Chris Holley.
- **Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad:** Ar 12 Ionawr, clywodd y Pwyllgor y newyddion diweddaraf am weithgareddau'r Gymdeithas gan Janet Ryder AC, Cadeirydd Cangen Cymru o'r Gymdeithas.

Y Pwyllgor Menter a Dysgu

- **Rhoi rhaglenni'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd 2007-2013 ar waith yng Nghymru:** Yn ystod ei gyfarfod ar 21 Ionawr, cytunodd y Pwyllgor y cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad hwn. Disgwylir i'r ymchwiliad gychwyn ym mis Mawrth.
- **Creu swyddi yn yr economi werdd:** Ym mis Ionawr, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gyswllt Amgylchedd Cymru a chwmni ymgynghori Alex Bird.

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

- **Llifogydd a lleihau allyriadau carbon:** Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi adroddiad ar ei ymchwiliad i lifogydd yng Nghymru yn ystod yr wythnosau nesaf, a disgwylir adroddiad ar ei ymchwiliad i leihau allyriadau carbon yng Nghymru ym mis Mawrth.
- **Mynediad i ddŵr mewndirol:** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan dri o Weinidogion Llywodraeth Cymru ar 21 Ionawr: Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai; Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth; ac Elin Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig. Ar 28 Ionawr, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gymdeithas Genweirwyr Eog a Brithyll Cymru, y Gynghrair Cefn Gwlad a Sefydliad y Gwy a'r Wysg. Mae'r sesiynau dystiolaeth bellach wedi eu cwblhau ac mae'r Pwyllgor yn adolygu canfyddiadau'r ymchwiliad.

Yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig

- **Dyfodol ucheldiroedd Cymru:** Ar 10 Rhagfyr, 2009, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth ychwanegol ar ei ymchwiliad i ddyfodol ucheldiroedd Cymru, ac mae'r ymchwiliad yn parhau.
- **Y diwydiant gwin, cwrw a seidr:** Lansiodd yr Is-Bwyllgor **alwad am dystiolaeth** ym mis Rhagfyr ynghylch ei ymchwiliad i'r diwydiant gwin, cwrw a seidr yn 2010. Y dyddiad cau yw 12 Chwefror.
- **Ymchwiliad i les anifeiliaid a hylendid cig:** 8 Ionawr oedd dyddiad cau yr **alwad am dystiolaeth** a gyhoeddodd yr Is-Bwyllgor ynghylch ei ymchwiliad i les anifeiliaid a hylendid cig mewn lladd-dai yng Nghymru. Cynhaliwyd y sesiynau dystiolaeth ar 14 a 25 Ionawr.

Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

- **Ymchwiliad i ddigwyddiadau chwaraeon mawr yng Nghymru:** Bydd yr ymchwiliad hwn yn ystyried gweithgareddau Llywodraeth Cymru, ei chyrrff darparu a sefydliadau cenedlaethol eraill yng nghyd-destun digwyddiadau chwaraeon mawr, yn enwedig Cwpan Ryder a'r Gemau Olympaidd yn Llundain yn 2012. Dyddiad cau yr **alwad am dystiolaeth** oedd 15 Ionawr.

Gweithgareddau allanol Aelodau mewn perthynas â busnes y Cynulliad

- **Cynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon (BIPA):** Bu Mike German AC yn ymweld â Stockholm ar 13-14 Rhagfyr 2009 fel rhan o ddirprwyaeth o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, sy'n cynnal ymchwiliad i ofod economaidd rhanbarthol a rhanbarthau macro ar draws Ewrop. Ar 18 Ionawr, aeth Mike German i gyfarfod Pwyllgor Materion Ewropeaidd BIPA yn Llundain, lle trafodwyd argymhellion cychwynnol yr ymchwiliad, yn ogystal â'r polisi amddiffyn a thramor cyffredin Ewropeaidd, y dirwasgiad a gweithwyr mudol yn yr UE.
- **Cynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon:** Ar 18 Ionawr, aeth Dai Lloyd AC i gyfarfod Pwyllgor BIPA yn Nulyn i drafod ymchwiliad byr i helpu pobl ddi-waith i ddychwelyd i swyddi.
- **Pwyllgor y Rhanbarthau:** Christine Chapman AC, oedd y prif siaradwr yn y Bumed Deialog Dirioogaethol, digwyddiad a drefnwyd gan Sbaen, fel rhan o'i llywyddiaeth o'r UE, a Phwyllgor y Rhanbarthau. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn yn Palma de Mallorca ar 18 Ionawr. Cyflwynodd Christine Chapman prif bwyntiau ei hadroddiad ar ddyfodol Strategaeth Lisbon, a gafodd ei fabwysiadu gan Bwyllgor y Rhanbarthau ym mis Rhagfyr 2009. Christine Chapman fydd y prif siaradwr yn y gynhadledd sy'n cael ei threfnu gan Gymdeithas Awdurdodau Lleol Ewrop yn Barcelona ar 22 Chwefror. Aeth Rhodri Glyn Thomas AC i'r cyfarfod llawn a chyfarfodydd y Comisiwn Adnoddau Naturiol (NAT) ym Mrwsel ar 10-11 Chwefror, a bydd yn mynychu ail gyfarfod Comisiwn NAT ar 23 Chwefror.
- **Cynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Ewrop (CALRE):** Aeth Rosemary Butler, Dirprwy Lywydd y Cynulliad, i gyfarfod Pwyllgor Sefydlog CALRE, fel rhan o Bwyllgor y Rhanbarthau, ym Mrwsel ar 25 Ionawr.
- **Seminar gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD):** Bydd Rhodri Morgan AC a Rhodri Glyn Thomas AC yn mynd i'r seminar Seneddol lefel uchel, "Cynnal Adferiad Byd-Eang", a drefnwyd gan yr OECD ym Mharis ar 18 Chwefror.

Ymwelwyr rhyngwladol ac ymwelwyr pwysig eraill â'r Senedd

- **Ar 14 Ionawr**, bu Mr Ram Chandra Paudel, Pennaeth y Blaid Seneddol yng Nghyngres Nepal a Mr Nabindra Raj Joshi, llefarydd ar ran y Blaid Seneddol yng Nghyngres Nepal, yn ymweld â'r Cynulliad er mwyn trafod materion yn ymwneud â system ffederal a seneddol Prydain, yn ogystal â chyfarfod â Mohammad Asghar AC.
- **Ar 24 Chwefror**, bydd dirprwyaeth o Senedd Armenia yn ymweld â'r Cynulliad i drafod cydraddoldeb rhywiol â Rosemary Butler AC, Dirprwy Lywydd y Cynulliad, ynghyd ag aelodau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal a Christine Chapman AC, y llefarydd dros weithgor hollbleidiol ar gydraddoldeb rhywiol.
- **Ar 24 Chwefror**, bydd dirprwyaeth o Bosnia yn cyfarfod Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Cyllid.

Lincs

- [Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#)
- [Hysbysiad Busnes y Cynulliad](#)
- [Tudalennau'r Pwyllgorau](#)
- [Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau](#)

Am ragor o wybodaeth—

Cysylltwch â:

Gregg Jones, Pennaeth y Swyddfa (Gregg.Jones@wales.gsi.gov.uk)
Swyddfa UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad)
Tŷ Cymru
6th Floor
Rond Point Schuman 11
1040 Bruxelles
Belgium
Ffôn: 0032 2 226 66 92
Mobile: 0044 (0) 7816 164 455

Neu

Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cysylltiadau Allanol
Tŷ Hywel (3ydd Llawr)
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 0044 (0)29 2089 8642/8897
archebu@cymru.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn anfon yr e-bost hwn atoch gan ein bod yn credu y bydd o ddiddordeb i chi. Os nad ydych am i ni anfon rhifynnau eraill o'r cylchlythyr atoch, neu os nad ydych wedi cael yr e-bost hwn yn uniongyrchol ac yn awyddus i ni ychwanegu'ch enw at y rhestr bostio, anfonwch e-bost at Gregg Jones.